Rhifyn 38

Gwneud bwydwr adar wedi ei ailgylchu

Yn yr Hydref, pan fo bwyd y gwrychoedd yn dechrau mynd yn brin, mae hi'n syniad da bwydo adar yn yr ardd.

Dyma ffordd syml o wneud bwydwr adar.....ac ailgylchu yr un pryd.

COFIWCH - mae gwanaol adar yn hoffi gwahanol fwydydd - rhai yn hoffi cnau, eraill had, a rhai yn hoff o bryfed marw. Gallwch brynu bwyd gwahanol ar gyfer eich adar o warchodfeydd yr RSPB, mewn canolfannau gwarddio ac mewn rhai archfarchnadoedd. Cofiwch gadw cofnod o'r adar sydd yn dod i ymweld a'ch bwydwr a pa fwyd maent yn ei hoffi.

- Rydych angen potel blastig - un sydd gyda caead.
- Torrwch dwll yn ei ochr sydd yn ddigon mawr i adael hâd dod allan, ond yn ddigon bach fel na fod yr hadau yn cwympo ar y llawr neu yn cael eu gwlychu pan fydd hi'n bwrw glaw. Byddwch angen cymorth oedolyn i wneud hyn - gwyliwch eich bysedd!

- Gwnewch gwpwl o dyllau bach yn gwaelod y botel i adael unrhwy ddŵr rhedeg i fwrdd.

- Hongiwch y botel wrth weiar neu hyd yn oed cortyn cryf o goeden neu lein ddillad, ddigon uchel fel na all cathod ei gyrraedd.
- Os bydd eich bwydwr yn heneiddio neu yn dechrau llwydo newidiwch o am un arall gan greu un newydd.

  Cofiwch gadw eich bwydwr yn llawn, yn enwedig yn y gaeaf. Mae adar yn dibynnu ar fwydwyr a byddant yn newynu os ydych yn anghofio eu llenwi.

Diolch i'r RSPB am yr erthygl a'r lluniau